# HAYCOCK, (BLODWEN) MYFANWY (1913 - 1963), artist ac awdur

**Enw:** (Blodwen) Myfanwy Haycock
**Dyddiad geni:** 1913
**Dyddiad marw:** 1963
**Priod:** Arthur Merion Williams
**Rhiant:** Alice Maud Haycock (née Perry)
**Rhiant:** James David Haycock
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** artist ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Roland Glyn Mathias

Ganwyd yng Nglynd r, Mount Pleasant, Pontnewynydd, Mynwy, 23 Mawrth 1913, yr ieuangaf o dair merch James David Haycock, glöwr (a adweinid yn lleol fel Jim Pearce) ac Alice Maud (ganwyd Perry), y ddau'n enedigol o Fyn. Addysgwyd hi yn ysgol elfennol Cwm-ffrwd-oer, ysgol ramadeg merched Pont-y-p l, Coleg Technegol Caerdydd (y coleg celf yn ddiweddarach). Ymwrthododd â gyrfa fel athrawes celf a chymerodd at newyddiaduraeth rydd ar gyfrif ei medr fel darlunydd mewn du a gwyn, a'i llwyddiant gyda thelyneg Saesneg yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan yn 1932, dan feirniadaeth W.H. Davies. O'r fl. 1936 ymddangosodd ei cherddi a'i storïau, wedi eu darlunio gyda dyluniadau sgrafwrdd yn y *Western Mail* a phapurau a chylchgronau eraill. Pan dorrodd Rhyfel Byd II allan aeth yn glerc cyflogau mewn ffatri cad-ddarpar, yna'n eu tro yn swyddog lles cynorthwyol mewn ffatri mewn ardal slymiau yng Nghaerdydd, athrawes, a swyddog hysbysrwydd i'r Institute of Agriculture ym Mrynbuga. Yn 1943 ymunodd â'r B.B.C. yn Llundain : darlledwyd dwy o'i dramâu radio a darllenwyd ei cherddi ar yr awyr. Wedi gadael y B.B.C. yn 1945 bu'n llwyddiannus mewn newyddiaduraeth yn Llundain, gan ysgrifennu erthyglau a cherddi, darlunio llyfrau, cynllunio cardiau Nadolig, a dod yn aelod o gyngor y Society of Women Journalists. Yng Ngorffennaf 1947 priododd Arthur Merion Williams o'r Borth (anaesthetigydd ymgynghorol i ysbyty sir Redhill a gr p ysbytai dwyrain Surrey) yng nghapel Presbyteraidd Llanofer, a byw wedyn yn Buckland, ger Reigate, lle y magodd eu tri phlentyn. Ar waethaf afiechyd cynyddol parhaodd i ysgrifennu a darllen ei cherddi yn aml ar y teledu. Bu farw 9 Tachwedd 1963. Ei phedair cyfrol cyhoeddedig oedd: *Fantasy and other poems* (1937), *Poems* (1944), *More poems* (1945) ac wedi ei marw, *Mountain over Paddington* (1964). Yr oedd yn fardd argraffiaethol rhugl, ' her imagery often touched with elfin whimsicality ' meddai A.G. Prys-Jones, a defnyddiai ffurfiau traddodiadol gydag effaith sydd ar dro'n adleisio W.H. Davies. Galwodd Wil Ifan hi'n ' ail lais Gwent ' yn 1940.

## Awdur

**Roland Glyn Mathias**

## Ffynonellau


W. J. T. Collins, *Monmouthshire writers. A literary history and anthology ...* (Casnewydd 1945) (1945)

*Some contemporary Anglo-Welsh writers* (Caerdydd 1941), Llyfrgell Dinas Caerdydd (1941)

*Western Mail*, 14 Tachwedd 1963

gwybodaeth gan Miss Gwladys Haycock


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Myfanwy Haycock

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76089369

Wikidata: Q15454409


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu